

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Y Mater dan Sylw a'r Camau Gweithredu a Gynigir

1.1 Bwriad Llywodraeth Cymru yw cynnal a gwella'r ddarpariaeth effeithiol o Wasanaethau Meddygol Cyffredinol gan ddefnyddio profiad y blynyddoedd diwethaf er mwyn sicrhau darpariaeth sy'n canolbwyntio ar gleifion ac sy'n cael ei chyflenwi yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Golyga hyn ei bod yn hanfodol cael cyfres newydd o Reoliadau i ddiweddarau a disodli'r rheoliadau presennol, Rheoliadau'r GIG (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004").

1.2 Bydd Rheoliadau'r GIG (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn nodi'r fframwaith ar gyfer contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol o dan Ran 4 (Gwasanaethau Meddygol) Deddf y GIG (Cymru) 2006. Mae'r contractau yn cael eu cynnal rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) a'r Contractwr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC).

1.3 Yn ogystal â Rheoliadau 2023 a fydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer datblygiadau polisi a chyfeiriadau statudol wedi'u diweddarau, y polisi gwaelodol yw Diwygio Contractau, sy'n creu Contract Unedig newydd ar gyfer pob practis meddyg teulu. Nod y contract newydd hwn yw ailddiffinio'r cynnig GMC craidd, gan fireinio a symleiddio'r model contractau, cadw mewn cof yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig a chaniatáu i GMC ganolbwyntio ar y gweithgareddau hynny y gall GMC a phractisau unigol eu gwneud, ac a ddylai gael eu gwneud ganddynt hwy yn unig.

1.4 Bydd y contractwr GMC yn dal contract GMC unedig cyffredin gyda BILI ar gyfer gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion, y gallant ddangos lefelau uchel o safonau a gofal ansawdd yn hawdd yn unol ag ef.

1.5 Mae'r contract unedig yn cydgrynhoi gwasanaethau hanfodol, gwasanaethau ychwanegol, y gwasanaeth Diabetes estynedig ac elfennau o'r Fframwaith Ansawdd a Gwella a ystyrir yn wasanaethau GMC craidd.

1.6 Bydd y dangosyddion clinigol a oedd yn rhan o'r Fframwaith Ansawdd a Gwella (QAIF), a oedd yn wirfoddol i gontractwyr GMC gymryd rhan ynddo, hefyd yn symud i'r contract unedig. Mae hyn yn golygu y bydd contractwyr GMC yn rheoli rhai o'r cyflyrau cronig mwyaf cyffredin, er enghraifft asthma a diabetes i gleifion sydd â'r cyflyrau hynny.

1.7 Roedd elfen o QAIF o 1 Ebrill 2022 hefyd yn cynnwys yr Ymrwymiad Mynediad i ddangos yn gliriach i'r cyhoedd beth y gallant ei ddisgwyl gan bractisau meddygon teulu o ran mynediad. Bydd y rhan hon o'r QAIF yn symud i'r contract unedig er mwyn ffurfioli disgwyliadau a gofynion mynediad ynghyd â thargedau a mesurau cadarn.

1.8 Yn ogystal, er mwyn gwella mynediad i gleifion ymhellach, rhaid i contractwyr GMC –

- Ateb eu ffonau drwy gydol yr oriau craidd h.y. 8.00am i 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, oni bai bod cytundeb blaenorol wedi'i roi gan y Bwrdd Iechyd Lleol i ddefnyddio neges llais mewn amgylchiadau eithriadol;
- Sicrhau bod drysau prif safle'u practis yn agored fel y gall cleifion gael mynediad i'r safle yn gorfforol rhwng 8.30am a 6.00pm; bydd hyn hefyd yn atal lleiafrif o bractisau rhag cau am hanner diwrnod.

1.9 Er mwyn hyrwyddo'r agenda iechyd cyhoeddus bydd templed "holiadur cleifion newydd" cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio gan bob practis a'i gynnig i gleifion sy'n cofrestru gyda nhw. Bydd yr holiadur safonol yn sicrhau proses sgrinio ar gyfer cleifion 16 oed neu hŷn:

- sy'n yfed alcohol ar lefel uwch neu lefel risg uwch
- sy'n ddefnyddwyr cynhyrchion tybaco
- sydd â BMI uchel

1.10 Bydd practisau yn parhau â'u dulliau presennol o gyfeirio cleifion sy'n cael eu nodi fel rhai sy'n wynebu risg, at gymorth perthnasol.

1.11 Bydd cyflwyno'r set ddata ofynnol genedlaethol "holiadur cleifion newydd" ar gyfer pob claf newydd yn sicrhau cysondeb o ran casglu gwybodaeth bwysig wrth sgrinio iechyd.

1.12 Bydd y contract GMC diwygiedig yn cynnwys cwmpas ehangach ar gyfer gwasanaethau craidd i'r claf. Er enghraifft:

Gwasanaethau Unedig:

1.14 Dyma'r gwasanaethau sylfaenol y mae pob contractwr meddygon teulu yn gyfrifol am eu darparu i bob claf sydd wedi cofrestru â'r practis.

1.15 Mae'r rhain yn cwmpasu:

- rheoli cleifion sy'n sâl neu'n credu eu bod yn sâl, gyda chyflyrau y disgwylir iddynt wella ohonynt yn gyffredinol, drwy gydol y cyflwr hwnnw, gan gynnwys cyngor hybu iechyd perthnasol ac atgyfeirio fel y bo'n briodol, gan adlewyrchu dewis y claf lle bynnag y bo'n ymarferol;
- rheoli cyffredinol ar gyfer cleifion sy'n derfynol wael;
- rheoli clefydau cronig yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac arferion gorau cydnabyddedig, gan drafod â'r claf;
- sgrinio serfigol;
- gwasanaethau atal cenhedlu;
- brechu ac imiweiddio (sy'n rhan o Wasanaethau Hanfodol neu Ychwanegol ar hyn o bryd);
- gwyliadwriaeth iechyd plant;
- gwasanaethau mamolaeth - ac eithrio gofal intrapartwm

- mân lawdriniaethau ciwretio, serio, cryoserio dafadennau a ferwcau lle bo hynny'n briodol yn glinigol.

1.16 Mae rheoli clefydau cronig yn cynnwys y gofal sylfaenol i gleifion ar gyfer cyflyrau cronig, a ddarperir drwy ddefnyddio barn glinigol gan ymgynghori â'r claf, yn unol â chanllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan gyrff proffesiynol, gan ddefnyddio llwybrau gofal cenedlaethol neu leol os oes rhai ar gael.

1.17 Yn yr un modd â Rheoliadau 2004, mae Rheoliadau 2023 yn sefydlu cydrannau'r Contract GMC sy'n cynnwys:

- Yr amodau y mae'n rhaid i contractwyr GMC (meddyg teulu) eu bodloni cyn y bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo i contract â nhw;
- Telerau'n ymwneud â hyd contract a'r gwasanaethau meddygol cyffredinol sydd i'w darparu;
- Datrys anghydfod;
- Rhagnodi a chyflenwi meddyginiaethau;
- Amrywio, terfynu a chanslo contractau;
- Yr amodau i'w bodloni gan y rhai sy'n cyflawni gwasanaethau neu sy'n cael eu cyflogi neu eu cymryd ymlaen gan y contractwr;
- Cofrestru a thynnu cleifion, cau rhestrau ac aseiniadau;
- Cofnodion cleifion, darparu gwybodaeth a hawliau mynediad;
- Cwynion

Tymor hir

1.18 Y bwriad yw sicrhau bod contractau GMC yn parhau'n addas i'r diben am y 10 mlynedd nesaf o leiaf, a thrwy hynny barhau i ddarparu'r gwasanaethau presennol i gleifion, a'u gwella. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y newidiadau hyn mewn trafodaethau cydweithredol helaeth gyda GPC Cymru a GIG Cymru. Os bydd angen, drwy'r trafodaethau blynyddol arferol rhwng Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) (GPC(W)) a GIG Cymru, gellid gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau 2023.

Atal

1.19 Mae rheoliadau 2023 yn ymwneud â darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol drwy contract gan bractisau meddygon teulu i holl ddinasyddion Cymru. Felly, canolbwyntir ar ddarparu gofal iechyd da a mesurau ataliol drwy raglenni iechyd cyhoeddus, er enghraifft rhaglenni brechu i atal iechyd gwael a lleihau derbyniadau i'r ysbyty.

Integreiddio

1.20 Mae Rheoliadau 2023 yn nodi elfennau'r contract rhwng y Contractwr GMC a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd integreiddio gwasanaethau y mae Contractwyr GMC yn eu darparu i greu gwasanaethau unedig o fewn y contract GMC yn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu'n deg i bob dinesydd yng Nghymru ac yn cyfrannu at nod llesiant Cymru iachach.

Cydweithredu ac Ymwneud

1.21 Mae'r Contract Unedig yn ganlyniad i 18 mis o waith a wnaed fel rhan o ddull teirochrog gyda Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a GPC(W). Mae'r gwaith wedi symud ymlaen drwy grwpiau gorchwyl a gorffen, heb ymrwymiad na rhagfarn, gyda chylch gorchwyl ac amcanion clir. Mae darpariaethau eraill o fewn Rheoliadau 2023 sy'n adlewyrchu datblygiadau polisi wedi cael eu trafod gyda GIG Cymru a GPC(W) fel rhan o'r cylch trafodaethau blynyddol am newidiadau i'w gwneud yn y flwyddyn ariannol ganlynol. Bydd gan y Contract Unedig hefyd ofyniad i bractisau ffurfio rhan o gydweithfa meddygon teulu ac ymgysylltu fel rhan o'r gydweithfa drwy rannu gwybodaeth, cymryd rhan mewn trafodaethau cydweithredol a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno atebion lleol. Dylai canlyniadau gynnwys gwell gofal i gleifion a gwell systemau i helpu'r gweithlu i ymateb i angen ac i ddarparu gofal yn y ffordd fwyaf effeithiol.

1.23 Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori wedi'i dargedu am 4 wythnos i randdeiliaid allweddol ar y newidiadau mawr sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o Reoliadau 2023. Cafodd Llais, sef Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ei gynnwys yn yr ymgynghoriad hwnnw. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd fel bod modd i aelodau'r cyhoedd wneud sylw, os oedden nhw'n dymuno gwneud hynny.

Effaith

1.24 Bydd symleiddio a symleiddio'r model contract, drwy symud gwasanaethau i wasanaethau unedig, sy'n gam cost-niwtral, yn helpu i roi eglurder a chysondeb wrth ddarparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod practisau yn glir ynghylch eu rhwymedigaethau ac yn rhoi mynediad cyfartal i gleifion i'r gwasanaethau hyn.

Costau ac Arbedion

1.25 Mae newid gwasanaethau yn wasanaethau unedig yn gost-niwtral.

Mecanwaith

1.26 Bydd Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu llunio ar gyfer y Rheoliadau hyn. Bydd yr RIA yn tynnu ar agweddau ar yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC) yn cael ei ddal rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) a Chontractwyr GMC i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol. O ganlyniad, bydd unrhyw newidiadau i'r contract GMC, fydd yn arwain at Reoliadau 2023, yn effeithio ar FILLau a meddygon teulu. Yn unol â hynny, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Sicrwydd Contract a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Contractio a Gwasanaethau yn 2021 gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru (GPC Cymru) sy'n cynrychioli meddygon teulu yng Nghymru.

Edrychodd y grŵp Contractio a Gwasanaethau ar yr hyn y mae pob practis meddyg teulu yn ei wneud, ac sy'n wasanaeth craidd i gleifion. Archwiliodd y grŵp Sicrwydd Contract pa brosesau sicrwydd sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau a ddarperir trwy'r contract GMC a sut y gellid eu cryfhau i roi'r sicrwydd sydd ei angen ar gontractwyr, byrddau iechyd a'r llywodraeth.

Cynhaliwyd sawl cyfarfod lle cytunwyd mewn egwyddor ar feysydd penodol, a drosglwyddwyd wedyn i'r cyfarfodydd trafod yn 2022 gyda chynrychiolwyr eto o Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a GPC Cymru i ddatblygu a chytuno ar y newidiadau i'r Contract GMC o 1 Hydref 2023.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori wedi'i dargedu am 4 wythnos i randdeiliaid allweddol ar y newidiadau mawr sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o Reoliadau 2023. Cafodd Llais, sef Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei gynnwys yn yr ymgynghoriad hwnnw. Cafodd y ddogfen ymgynghori hefyd ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru fel bod modd i aelodau'r cyhoedd wneud sylw, os oedden nhw'n dymuno gwneud hynny.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Effeithiau mwyaf sylweddol diwygio'r contractau GMC yw symleiddio strwythur y contract presennol, gan ailddiffinio'r hyn a gynigir fel gwasanaethau craidd gan bob meddyg teulu yng Nghymru am y tro cyntaf ers 2004. Nod y dull gweithredu yw bod pob practis:

- Yn dal contract unedig cyffredin gyda bwrdd iechyd am wasanaethau i gleifion, y gallant ddangos lefelau uchel o ansawdd a safonau gofal yn unol ag ef yn hawdd. Mae'r contract unedig yn cydgrynhoi gwasanaethau hanfodol, gwasanaethau ychwanegol, y gwasanaeth Diabetes estynedig ac elfennau o'r Fframwaith Ansawdd a Gwella a ystyrir yn wasanaethau meddygol cyffredinol craidd.
- Bydd y contract unedig yn adlewyrchu'r hanfodion: mynediad, ansawdd, gweithlu, rheoli cyflyrau cronig, gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol contractwyr eraill ar draws sylfaen y clwstwr/traws-glwstwr. O ran gweithio

gyda gweithwyr proffesiynol eraill, bydd hyn yn mynegi beth yw'r disgwyliadau penodol ar gyfer eu cyflawni gan ddeiliad y contract a'r hyn a ddisgwylir fel "menter ar y cyd".

- Creu dull cyson o gontractio a llywodraethiant clinigol sy'n cael ei yrru gan ddata i sicrhau safonau gofal uchel.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig: yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu, yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr effeithiau a nodwyd yn cyfrannu at nod llesiant Cymru iachach gan y bydd y gwasanaethau unedig yn cynnig mynediad cyfartal at y gwasanaethau hyn i gleifion.

Er mwyn cefnogi'r agenda iechyd cyhoeddus bydd templed "holiadur cleifion newydd" cenedlaethol yn cael ei ddatblygu a'i rannu â phractisau a'i gynnig i gleifion sy'n cofrestru gyda hwy. Bydd yr holiadur safonol yn sicrhau proses sgrinio ar gyfer cleifion 16 oed neu hŷn:

- sy'n yfed alcohol ar lefel uwch neu lefel risg uwch
- sy'n ddefnyddwyr cynhyrchion tybaco
- sydd â BMI uchel

Bydd practisau yn parhau â'u dulliau presennol o gyfeirio cleifion sy'n cael eu nodi fel rhai sy'n wynebu risg, at gymorth perthnasol.

Bydd cyflwyno'r templed "holiadur newydd i gleifion" y set ddata genedlaethol ar gyfer pob claf newydd yn sicrhau cysondeb o ran casglu gwybodaeth bwysig wrth sgrinio iechyd.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Y bwriad yw sicrhau bod contractau GMC yn parhau'n addas i'r diben am y 10 mlynedd nesaf, a thrwy hynny barhau â'r ddarpariaeth bresennol a gwella gwasanaethau i gleifion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y newidiadau hyn mewn trafodaethau cydweithredol helaeth gyda GPC Cymru a GIG Cymru. Bydd monitro parhaus fel y nodir yn Rheoliadau 2023 ac os oes angen, drwy'r trafodaethau blynyddol arferol rhwng Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) (GPC(W)) a GIG Cymru, gellid gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau 2023.